


# Adroddiad Blynyddol Ofcom i Gomisiynydd y Gymraeg

## Ein cynnydd yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 2023/24

22 Hydref 2024

# Cynnwys

## Adran


Trosolwg ........ 3

1. Gwybodaeth am Ofcom ........ 4
2. Ein dull gweithredu ........ 5
3. Manylion Cyswllt ........ 12

# Trosolwg

Mae'r ddogfen hon, sef ein 7fed Adroddiad Blynyddol, yn nodi cynnydd Ofcom o ran cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (y 'Safonau').. Fel gydag adroddiadau blaenorol, mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â chyfnod adrodd – Awst 2023 i Fedi 2024. Rydym yn dal wedi ymrwymo i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a galluogi pobl i gyfathrebu ag Ofcom yn yr iaith o'u dewis – boed hynny yn Gymraeg neu'n Saesneg. Rydym wedi cyflawni hyn mewn ffordd sy'n gymesur ac yn gyson â'n dyletswyddau presennol.

Mabwysiadodd Ofcom y Safonau a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg (y 'Comisiynydd') mewn hysbysiad cydymffurfio ym mis Ionawr 2017. Cafodd Ofcom [hysbysiad cydymffurfio] diwygiedig, a ddaeth i rym ar 5 Gorffennaf 2024, ar ôl i'r Comisiynydd ddyfarnu ar gais Ofcom i amrywio dwy o'r Safonau. Mae'r hysbysiad cydymffurfio yn darparu'r fframwaith ar gyfer ein gwaith yn y Gymraeg.

### Cynnydd Ofcom o ran y Gymraeg yn gryno

Unwaith eto, mae ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi bod yn rhan bwysig o waith Ofcom yng Nghymru eleni. Mae'r Gymraeg yn cael ei gweld a'i chlywed yn rheolaidd yn ein digwyddiadau a'n cyfarfodydd. Mae annog siaradwyr Cymraeg i ymgysylltu ag Ofcom yn Gymraeg yn rhan annatod o'r ffordd rydym yn mynd ati i wneud ein gwaith.

Yn fewnol, roedd cydweithwyr Ofcom Cymru wedi gweithio'n agos gyda'n tîm cyfreithiol i gynnal sesiynau ymwybyddiaeth 'Dysgu dros Ginio' ar y Safonau a sut maen nhw'n effeithio ar waith Ofcom. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys hyfforddiant pwrpasol a ddarparwyd i'r gwahanol dimau ar draws y sefydliad, a oedd yn llwyddiannus iawn. Roeddem hefyd wedi diwygio ein ffurflen asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg ac wedi cysylltu â thîm polisi Ofcom i wneud gwybodaeth am y Safonau sy'n berthnasol wrth lunio polisïau yn fwy hygyrch ar ein mewnrwyd.

Rydym wedi parhau i fonitro ein gwasanaethau Cymraeg ym mhob maes i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Safonau. Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i gydymffurfio â'r Safonau, ac ar y cyd â chydweithwyr yn nhîm Pobl a Diwylliant Ofcom, rydym wedi gwneud newidiadau i'n polisi Disgyblu a'n Gweithdrefnau Cwynion Cyflogaeth.

Gwnaethom gyhoeddi nifer fawr o ddogfennau Cymraeg drwy gydol y cyfnod a sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r Safonau drwy addasu ein ffordd o weithio yn y tîm.

Rydym wedi parhau i adeiladu ar y berthynas dda gyda swyddogion Comisiynydd y Gymraeg ac wedi croesawu'r cyfle i ymgysylltu â'r Comisiynydd newydd. Yn ddiweddar, derbyniodd Ofcom ddyfarniad y Comisiynydd ar ei gais i amrywio dwy o'r Safonau, 33 a 54, sydd bellach wedi'u diweddaru yn yr hysbysiad cydymffurfio diwygiedig. Rydym yn cydnabod y ffordd gydweithredol yr aeth y Comisiynydd ati i ymdrin â hyn wrth ddod i'w phenderfyniad.

# 1. Gwybodaeth am Ofcom

1.1 Fel rheoleiddiwr annibynnol cyfathrebiadau'r DU, rydym yn gwneud gwaith hanfodol sy'n helpu i gadw pobl mewn cysylltiad ar draws y DU ac sy'n siapio'r ffordd byddwn ni'n cadw mewn cysylltiad â'n gilydd yn y dyfodol. Mae ein gwaith yn cynnwys popeth o ffonau a band eang i deledu, radio, y gwasanaeth post, a dyfeisiau di-wifr. Rydyn ni hefyd yn rhoi rheoliadau ar waith i gadw pobl yn ddiogel ar-lein.

## Ofcom yng Nghymru

1.2 Mae pencadlys Ofcom yn Llundain, a daw ein dyletswyddau o Senedd y DU. Fel rhan o hynny, rydym yn sicrhau bod gennym ddealltwriaeth o ddinasyddion a chynulleidfaoedd ar draws gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Mae gennym ddyletswydd statudol i roi sylw dyledus, ymysg pethau eraill, i safbwyntiau a buddiannau'r rhai sy'n byw ar draws y DU. Mae ein gweithrediadau yn y gwledydd yn cael eu harwain gan Gyfarwyddwyr yng Nghaerdydd, Belfast, Caeredin a Llundain. Mae ein swyddfeydd cenedlaethol yn gallu defnyddio adnoddau llawn y sefydliad cyfan i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar un rhan o'r Deyrnas Unedig.

1.3 Mae gan dîm Ofcom Cymru yng Nghaerdydd 8 swydd amser llawn, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn siarad Cymraeg. Mae dros 20 o gydweithwyr yn gweithio o swyddfa Caerdydd gan ymdrin â phob agwedd ar waith Ofcom ledled y DU. Mae'r Gymraeg yn cael ei chlywed drwy gydol y diwrnod gwaith ac mae Ofcom yn parhau i annog cydweithwyr yng Nghymru sydd eisiau dysgu i wneud hynny, gyda'r sefydliad yn ariannu hyfforddiant lle bo angen.

## Ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg

1.4 Mae Ofcom wedi ymgysylltu'n adeiladol â swyddfa'r Comisiynydd am nifer o flynyddoedd, gan wneud yn siŵr bod gennym ddealltwriaeth drylwyr o ofynion y Comisiynydd a'n bod yn cael deialog glir yn rheolaidd. Rydym yn gwerthfawrogi parodrwydd swyddogion y Comisiynydd i gydweithio, i gefnogi ac i gynghori.

1.5 Rydym yn mynd i sesiynau rhannu gwybodaeth sy'n cael eu trefnu gan y Comisiynydd ac roedd 'Yr Iaith ar Daith' yng Nghaerdydd a'r sesiynau galw heibio ar-lein yn arbennig o ddefnyddiol. Roeddem hefyd yn bresennol yn y sesiwn Technoleg, Gwasanaethau Digidol a'r Gymraeg ym mis Gorffennaf.

1.6 Ym mis Awst, cyfarfu cydweithwyr Ofcom Cymru â'r Comisiynydd a'i swyddogion yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mharc Ynys Angharad. Cyfarfod rhagarweiniol oedd hwn ar gyfer Cyfarwyddwr newydd Ofcom yng Nghymru. Yn y cyfarfod hwn, ymysg pethau eraill, gwnaethom gynnal trafodaethau adeiladol am ymrwymiad Ofcom i'r Safonau ac ar i Ofcom ymgysylltu â rhanddeiliaid yn Gymraeg ac yn Saesneg mewn digwyddiadau ledled Cymru.

# 2. Ein dull gweithredu

2.1 Mae Ofcom yn ceisio trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, lle mae'n briodol i ni wneud hynny. Wrth ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg, rydym bob amser yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin ar yr un sail â'r Saesneg yng Nghymru. Mae hyn yn berthnasol i'r canlynol:

a) cyflwyno deunydd yn weledol;
b) pryd a sut mae'r deunydd yn cael ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos;
c) maint, safle ac amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw fan cyhoeddus, a'i fformat cyhoeddi.

2.2 Rydym yn annog cydweithwyr ar draws y sefydliad i feddwl am y Gymraeg, y Safonau ac anghenion siaradwyr Cymraeg ar ddechrau eu prosiect, ac yn ystod prosiectau ar eu hyd.

2.3 Ein nod yw arloesi yn ein cyfathrebiadau, a chroesawu a hybu rhagor o ymgysylltu gan siaradwyr Cymraeg bob tro. Mae hyn yn cynnwys gwahodd amrywiaeth o gyfranwyr allanol sy'n siarad Cymraeg i gymryd rhan yn ein digwyddiadau i randdeiliaid, cynhyrchu cynnwys rhyngweithiol Cymraeg, creu cynnwys diddorol sy'n ymwneud â Chymru ar y cyfryngau cymdeithasol ac annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yn ystod rhai o'n digwyddiadau hybrid. Mae'r Gymraeg hefyd yn cael ei chlywed yn ystod neges Prif Weithredwr Ofcom i'r holl staff yn ystod 'Good Morning Ofcom', sy'n cael ei gynnal bob bore Llun ac yn cael ei ddarlledu i holl swyddfeydd Ofcom ar draws y DU. Roedd tîm Ofcom Cymru wedi cynnal ei fersiwn Gymraeg ei hun, 'Bore da Ofcom', ym mis Mehefin gan ei ddefnyddio i hyrwyddo gwaith Cymraeg Ofcom.

## Cydymffurfio – Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

### Ein cynnydd dros y flwyddyn

#### Cais i amrywio Safonau'r Gymraeg

2.4 Ysgrifennodd y Comisiynydd atom ym mis Gorffennaf gyda'i dyfarniad ar ein cais i amrywio safonau 33 a 54. Cyflwynodd Ofcom gais i amrywio'r Safonau oherwydd ein bod yn defnyddio llawer iawn mwy ar gyfryngau cymdeithasol. Roedd hyn wedyn wedi arwain at gynnydd yn y nifer a oedd yn ein dilyn ar ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, a'r adnoddau sydd ar gael i ni allu cynhyrchu deunydd a chynnwys Cymraeg sy'n cyfateb i'r hyn sy'n cael ei gynhyrchu yn Saesneg.

2.5 Mae dyfarniad y Comisiynydd ar ein cais i amrywio Safonau 33 a 54 yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom gynhyrchu cynnwys cyfryngau cymdeithasol a deunydd cyhoeddusrwydd a hysbysebu yn Gymraeg lle mae deunydd o'r fath yn berthnasol i Gymru yn unig neu lle mae'r testun neu'r pwnc neu ddisgwyliadau'r gynulleidfa yn awgrymu y dylid ei lunio yn Gymraeg.

2.6 Mae Ofcom wedi cael hysbysiad cydymffurfio diwygiedig a bydd cynllun gweithredu'n cael ei gyflwyno am gymeradwyaeth i'r Comisiynydd ar sut byddwn yn cydymffurfio â'r Safonau yn y dyfodol.

## Swyddog Cyswllt Cyfryngau Cymdeithasol

2.7 Mae ein Swyddog Cyswllt Cyfryngau Cymdeithasol Cymraeg wedi datblygu cynnwys Cymraeg Ofcom ar gyfryngau cymdeithasol ac rydym wedi sefydlu presenoldeb Cymraeg ar amrywiol lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gan greu cynnwys pwrpasol sy'n berthnasol i Gymru ac sydd o ddiddordeb arbennig i siaradwyr Cymraeg.

2.8 Mae cynnwys yn cael ei bostio sawl gwaith yr wythnos ac mae cynnydd yn cael ei wneud ar hyrwyddo ein sianeli cyfryngau cymdeithasol Cymraeg i gynyddu nifer ein dilynwyr. Roedd ein rhyngweithio yn arbennig o gryf yn ystod 'Dydd Miwsig Cymraeg' ac ar Ddydd Gŵyl Dewi pan gyhoeddon ni rîl ar y thema 'Gwneud y pethau bychain'.

## Y Llinell Gymorth Gymraeg

2.9 Mae'r Safonau sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaethau yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud gyda llinell gymorth Gymraeg benodol Ofcom 0300 123 2023 o ran rheoli'r galwadau a hyrwyddo'r rhif. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gwella'r ffordd mae'r galwadau'n cael eu rheoli. Mae galwadau nawr yn cael eu cyfeirio drwy Teams at grŵp o siaradwyr Cymraeg rhwng 09.00 a 17.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener, a Rheolwr Swyddfa Ofcom Cymru yw'r ymatebwr cyntaf. Mae galwadau i'r llinell yn amrywio o ran natur ond yn bennaf maent yn alwadau gan ddefnyddwyr sy'n cael problemau gyda chysylltedd, yn bennaf mewn rhannau gwledig o Gymru. Mae tîm Ofcom Cymru wedi darparu cyngor fel y bo'n briodol ac mae wedi cael adborth gan bobl sy'n ffonio, sy'n cymeradwyo'r gwasanaeth Cymraeg a ddarperir ac ansawdd y cyngor a'r cymorth sydd ar gael.

## Digwyddiadau i randdeiliaid yng Nghymru

2.10 Fel yr amlinellwyd yng Nghynllun Gwaith 2024/25 Ofcom, rydym wedi parhau i ymgysylltu'n eang â'n rhanddeiliaid yng Nghymru i ddeall eu blaenoriaethau a'u pryderon yn llawn. Byddwn yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael y cyfle gorau i ymgysylltu â chydweithwyr ar draws Ofcom ar yr holl raglenni gwaith perthnasol ac y bydd modd iddynt wneud hyn yn y Gymraeg neu yn Saesneg.

2.11 Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cynnal digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid ar Gynllun Gwaith Ofcom 2024/25, yn ogystal ag ar adroddiad Cyfryngau'r Genedl 2023 Ofcom i rannu canfyddiadau ein hymchwil â thrawstoriad o randdeiliaid yn y diwydiant. Fe wnaethom gynnal trafodaeth bwrdd crwn ar newidiadau arfaethedig i'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer y post ac ymunodd cydweithwyr o bob rhan o Ofcom â thîm Cymru ar gyfer digwyddiad ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yng Nghaerdydd.

2.12 Yn unol â'r Safonau, roedd cyfieithu ar y pryd ar gael yn y digwyddiadau hyn, roedd fersiynau Cymraeg a Saesneg o sleidiau'r cyflwyniad yn cael eu rhannu, ac roedd gwahoddiadau i'r digwyddiadau'n ddwyieithog. Mae ein rhanddeiliaid yng Nghymru yn cael eu croesawu i'n digwyddiadau yn ddwyieithog ac yn cael eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y sesiynau holi ac ateb. Mae Ofcom hefyd wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau hybrid gyda chydweithwyr yng Nghymru yn gweithio'n agos gyda thîm Cyfathrebu Ofcom.

## Cyhoeddiadau

2.13 Cyhoeddodd Ofcom ei ddogfennau o ddiddordeb a pherthnasedd i'n cynulleidfa Gymreig yn ddwyieithog; roedd y rhain yn cynnwys Adroddiad Blynyddol Ofcom ar BBC 2022-23, Ymgynghoriad Cynllun Gwaith Ofcom, Cysylltu'r Gwledydd 2023, Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol, Adroddiad: Dyfodol dosbarthu Teledu, Ail-ymgynghoriad: Adnewyddu Trwydded Channel 4, Adolygiad o gyfryngau lleol yn y DU, Cyfryngau'r Genedl Cymru 2024.

2.14 Ochr yn ochr â'r cyhoeddiadau hyn, mae llawer o'n dogfennau cysylltiedig, fel ffurflenni, datganiadau newyddion, datganiadau i'r wasg [a negeseuon diweddaru sy'n cael eu hanfon at danysgrifwyr] ar gael yn Gymraeg lle bo'r Safonau'n mynnu hynny. Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn nhîm Cyfathrebu Ofcom i gyhoeddi ein darnau o'r Ganolfan Newyddion yn Gymraeg. Mae'r erthyglau newyddion hyn yn cael eu cyhoeddi ar wefan Ofcom ochr yn ochr â rhai o'n cyhoeddiadau allweddol ac yn rhoi'r wybodaeth berthnasol i ddefnyddwyr yn gryno. Mae enghreifftiau o ddarnau diweddar o'r Ganolfan Newyddion yn cynnwys: Trwyddedau darlledu gwasanaeth cyhoeddus deng mlynedd newydd i Channel 3 a Channel 5, Ofcom yn gosod safon medal aur yng Ngemau Paris a Nodi 50 mlynedd ers Ceefax - y 'rhyngrwyd ceffyl a throl'.

### Mudo gwefannau

2.15 Yn unol â'r Safonau, rydym yn sicrhau bod testun pob tudalen ar ein gwefan sy'n berthnasol i Gymru yn unig, neu sydd eisoes ar gael yn Gymraeg, ar gael yn Gymraeg ac yn gweithredu'n llawn. Yn ddiweddar, lansiodd Ofcom fersiwn newydd o'i wefan a gwnaethom gyflogi asiantaeth allanol brofiadol i fudo tudalennau Cymraeg y wefan, gan sicrhau cysondeb â'r testun Saesneg lle bo hynny'n berthnasol.

### Arwyddion newydd yn swyddfa Caerdydd

2.16 Mae'r Safonau yn ei gwneud yn ofynnol i ni sicrhau, pan fyddwn yn gosod arwydd newydd, bod rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg a Saesneg, na ddylid trin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. Yn ystod y flwyddyn, mae arwyddion newydd wedi cael eu gosod yn swyddfa Ofcom Cymru – yn Gymraeg, Saesneg a braille. Mae'r arwyddion yn arwain gyda'r testun Cymraeg, er enghraifft 'Storfa/Storeroom', 'Gofynnwch i'r staff am help/Please ask staff for help', a 'Cegin/Kitchen', yn unol â gofynion Safon 58.

# Cydymffurfio – Llunio Polisïau

## Ein cynnydd dros y flwyddyn

### Hyrwyddo'r safonau ymysg cydweithwyr

2.17 Mae Safon 121 yn nodi bod rhaid i ni ddynodi a chynnal tudalen (neu dudalennau) ar ein mewnrwyd sy'n darparu gwasanaethau a deunydd cefnogi i hyrwyddo'r Gymraeg ac i gynorthwyo staff i ddefnyddio'r Gymraeg. Rydym yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr polisi Ofcom i hyrwyddo'r safonau sy'n ymwneud â llunio polisïau a phwysigrwydd ystyried gofynion iaith Gymraeg Ofcom mewn prosiectau, lle bo hynny'n berthnasol. Mae mewnrwyd Ofcom wedi dod yn storfa mynediad agored o ganllawiau ac offer defnyddiol, gan ddarparu gwybodaeth a chyngor i gydweithwyr sy'n ymwneud â llunio polisïau, ymchwil a chyhoeddiadau. Hefyd, mae'r Proffesiwn Polisi yn dosbarthu cylchlythyr rheolaidd i gydweithwyr Ofcom, ac rydym wedi darparu erthyglau byr yn y cylchlythyr sy'n tynnu sylw at ein safonau llunio polisi.

2.18 Yn ystod y flwyddyn, bu cydweithwyr o dîm Cymru yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr o'n tîm cyfreithiol i gyflwyno sesiynau hyfforddi mewnol ar y Safonau. Cynhaliwyd pum sesiwn yn gynharach yn y flwyddyn ar gyfer y Grŵp Diogelwch Ar-lein, Sbectrwm, Safonau a Gorfodaeth, Rhwydwaith a Chyfathrebu a thîm Diwylliant a Phobl Ofcom. Pwrpas y sesiynau

hyn oedd codi ymwybyddiaeth a helpu i roi gwybod i gydweithwyr am y Gymraeg a'r Safonau. Rydym hefyd wedi symleiddio ein ffurflen asesu effaith ar y Gymraeg, gan fanteisio ar y cyfle i'w hyrwyddo i dimau perthnasol fel rhan o'n sesiynau hyfforddi pwrpasol ar draws y sefydliad. Mae'r ffurflen hon yn ei gwneud yn ofynnol i gydweithwyr ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg

### 'Bore da Ofcom'

2.19 Mae tîm Ofcom Cymru yn creu cyfleoedd i hyrwyddo ein gwaith yn y Gymraeg i gydweithwyr ar draws y sefydliad. Mae 'Good Morning Ofcom' yn sesiwn pymtheg munud i bob cydweithiwr gyda'n Prif Weithredwr bob bore Llun ac fe'i cynhaliwyd yn swyddfa Ofcom Cymru ym mis Mehefin. Wedi'i alw'n 'Bore da Ofcom', roedd yn canolbwyntio ar hyrwyddo gwaith Ofcom yn y Gymraeg, gan dynnu sylw at y defnydd o'r Gymraeg yng ngweithrediadau Ofcom o ddydd i ddydd a phwysigrwydd ystyried ar ddechrau prosiectau pa Safonau sy'n debygol o fod yn berthnasol.

# Cydymffurfio – Gweithredol

## Ein cynnydd dros y flwyddyn

2.20 Mae Safon 95 yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom ofyn i unigolion sy'n cael cynnig swydd newydd a ydynt yn dymuno cael y contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau yn Gymraeg (a darparu'r contract yn Gymraeg pan ofynnir am hynny). Mae'r Safonau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom ofyn i'w gyflogeion a ydynt yn dymuno cael dogfennau penodol yn Gymraeg ac i wneud hynny os mai dyna yw dymuniad y cyflogai. Yn unol â'r gofynion hyn, gall cydweithwyr Ofcom ddewis ym mha iaith yr hoffent gael rhai o ddogfennau penodol Ofcom. Erbyn hyn, mae opsiwn 'Cymraeg, Welsh' yn Workday (rhaglen yn y cwmwl a ddefnyddir gan Ofcom ar gyfer rheoli cyllid ac adnoddau dynol) sy'n caniatáu i gydweithwyr optio i mewn i dderbyn dogfennau yn Gymraeg lle maent wedi dewis hynny (cyn hyn, roedd y broses hon yn cael ei rheoli â llaw gan reolwr llinell yr unigolyn).

2.21 Mae Safon 123 yn nodi bod rhaid i ni asesu sgiliau iaith Gymraeg ein cydweithwyr. Y dull a ddefnyddir gan Ofcom yw fframwaith hunanasesu a gymeradwyir gan Wiriwr Lefel Dysgu Cymraeg y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (NCLW). Mae ein hasesiad ym mis Medi 2024 o dîm Ofcom Cymru (gyda 2 swydd wag) fel a ganlyn:

| Meini prawf asesu | Lefel NCLW | Cyfanswm |
|---|---|---|
| **Sgiliau siarad** | 1 (Mynediad) | 1 |
| | 2 (Sylfaen) | |
| | 3 (Canolradd) | |
| | 4 (Uwch) | 2 |
| | 5 (Rhugl) | 3 |
| **Sgiliau gwrando** | 1 (Mynediad) | 1 |
| | 2 | |

| Meini prawf asesu | Lefel NCLW | Cyfanswm |
|---|---|---|
| | 3 | |
| | 4 | 2 |
| | 5 (Rhugl) | 3 |
| **Sgiliau darllen** | 1 (Mynediad) | 1 |
| | 2 | |
| | 3 | |
| | 4 | 2 |
| | 5 (Rhugl) | 3 |
| **Sgiliau ysgrifennu** | 1 (Mynediad) | 1 |
| | 2 | |
| | 3 | 2 |
| | 4 | |
| | 5 (Rhugl) | 3 |

2.22 Yn unol â gofynion Safonau 126 a 127, mae Ofcom yn parhau i ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i dderbyn gwersi Cymraeg sylfaenol ac i gyflogeion sy'n rheoli eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr. Mae un cydweithiwr yn nhîm Ofcom Cymru yn mynychu gwersi Cymraeg ar hyn o bryd er mwyn gwella eu sgiliau.

## Recriwtio

2.23 Wrth asesu'r gofynion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid i Ofcom asesu'r angen am sgiliau Cymraeg a chategoreiddio'r swydd yn unol â hynny. Daeth pedair swydd yn wag yn ystod y cyfnod adrodd a chawsant eu categoreiddio yn unol â hynny, gydag Ofcom yn dynodi mwy nag un categori i swydd lle roeddem o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny. Gwahoddwyd ceisiadau yn Gymraeg ac yn Saesneg fel rhan o'r ymgyrchoedd recriwtio hyn, a chyhoeddwyd hysbysebion dwyieithog a manylebau rôl cysylltiedig hefyd gyda chyfieithiadau ar gael ar gyfer ymgeiswyr ac aelodau panel cyfweld yn ôl yr angen.

## Pwyllgor Cynghori Cymru, Ofcom

2.24 Mae Pwyllgor Cynghori Cymru, Ofcom, yn rhoi cyngor i Ofcom ynglŷn â diddordebau a barn poblogaeth Cymru am faterion yn ymwneud â chyfathrebiadau. Mae cadeirydd y Pwyllgor a thri o'r pum aelod anweithredol arall yn siarad Cymraeg. Mae aelod Bwrdd Ofcom ar gyfer Cymru, Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys ac Aelod ar ran Cymru o'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Cynghori yn rhinwedd eu swydd fel aelodau o'u Byrddau. Mae'r Gymraeg yn cael ei chlywed a'i siarad yn naturiol drwy gydol y cyfarfod gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael i'r aelodau. Mae cofnodion y Pwyllgor yn cael eu cymeradwyo gan brif Fwrdd Ofcom a'u cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wefan Ofcom. Mae Pwyllgor Cynghori Cymru yn cynnig sylwadau fel y bo'n briodol ar

ymgynghoriadau a gynhelir gan Ofcom ac mae'r pwyllgor yn ymdrechu i sicrhau bod ei ymatebion i ymgynghoriadau Ofcom a gohebiaeth gysylltiedig yn cael eu cyflwyno yn Gymraeg ac yn Saesneg lle bo hynny'n briodol.

# Cydymffurfio – Cadw Cofnodion

## Ein cynnydd dros y flwyddyn

### Cwynion

2.25 Mae crynodeb o'r cwynion a gafodd y Comisiynydd ynghylch cydymffurfiad Ofcom â'r Safonau wedi'i gynnwys isod.

| Trosolwg byr o'r gŵyn | Canlyniad/Canfyddiadau |
|---|---|
| **Cwyn mewn perthynas â hysbysebu swydd Cyfarwyddwr Ofcom yng Nghymru. Gweithredol: Safonau 132 a 132A).** | Penderfynodd y Comisiynydd beidio ag ymchwilio ar y sail ein bod wedi cyfiawnhau ein sefyllfa'n ddigonol ac wedi esbonio ein camau gweithredu. Er enghraifft, eglurwyd ein bod wedi dynodi mwy nag un categori sgiliau iaith Gymraeg i'r swydd hon ac roedd y Comisiynydd yn fodlon bod asesiad sgiliau wedi ei gwblhau ar gyfer y swydd hon. Penderfynodd y Comisiynydd beidio â chynnal ymchwiliad ac nid oedd angen gweithredu. |
| **Cwyn mewn perthynas ag asesiadau ieithyddol Ofcom o swyddi gweithredol ac anweithredol (Gweithredol: Safonau 132 a 132A).** | Penderfynodd y Comisiynydd beidio ag ymchwilio i'r gŵyn hon ar y sail bod Ofcom wedi egluro ein bod wedi asesu'r sgiliau iaith sydd eu hangen ar gyfer y swyddi cyn eu hysbysebu (rydym yn gwneud hyn pan fydd swyddi gweithredol ac anweithredol yn dod yn wag). Nid oedd angen gweithredu. |
| **Cyfanswm: 2** | |

## Ein ffocws ar gyfer y flwyddyn i ddod

2.26 Fel y nodwyd yn ein Cyllun Gwaith 2024-25, mae Ofcom wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod defnyddwyr, rhanddeiliaid a chydweithwyr yng Nghymru yn gallu ymgysylltu'n naturiol ag Ofcom yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rydym yn ymdrechu i wneud hyn yn unol â'n dyletswyddau presennol. Maes ffocws ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf fydd datblygu ein gwaith yn ymgysylltu a meithrin dealltwriaeth ymysg cydweithwyr ar draws y sefydliad o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Safonau, er enghraifft, sesiynau hyfforddi pwrpasol i dimau a sesiynau galw heibio 'dysgu dros ginio' i gydweithwyr. Mae ein dull gweithredu hyd yma wedi cael derbyniad da ac edrychwn ymlaen at adrodd ar gynnydd y flwyddyn nesaf.

2.27 Byddwn yn rhoi'r cynllun gweithredu mewn perthynas â Safonau 33 a 54 diwygiedig ar waith, yn dilyn cymeradwyaeth y Comisiynydd.

2.28 Rydym hefyd yn cynnal proses dendro agored am wasanaethau cyfieithu Cymraeg yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, pan ddaw'r contract presennol i ben.

2.29 Fel rhan o'n hymgysylltiad allanol, byddwn yn ceisio cynnal digwyddiad dwyieithog 'oddi ar y safle' yn un o gadarnleoedd y Gymraeg fel rhan o'n gwaith i egluro rôl Ofcom yng Nghymru ac i glywed yn uniongyrchol am brofiadau cyfathrebu pobl yng Nghymru.

2.30 Rydym wedi sefydlu perthynas waith dda gyda Chomisiynydd y Gymraeg a'i swyddfa, a byddwn yn parhau i gydweithio a chwarae ein rhan i helpu i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

# 3. Manylion Cyswllt

Os hoffech chi gysylltu â ni ynglŷn â'r Safonau neu gynnwys yr adroddiad blynyddol hwn, anfonwch e-bost atom yn: Rhys.Llewelyn@ofcom.org.uk